Panel Diogelwch Cydenwadol
Interdenominational Protection Panel

10fed o Ebrill 2018

Annwyl Ysgrifennydd,

Par: Sesiwn hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus

Rwyf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am sesiwn Hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus a fydd yn cael ei gynnal yn eich ardal chi yn y flwyddyn newydd sy wedi'i drefnu ar gyfer dosbarth Gogledd Ceredigion.

Cynhelir sesiwn:

Yn: Capel Elim, Llanddeiniol SY23 5AN
Ar: Nos Fawrth 24ain o Ebrill 2018 rhwng 6.45 a 9 y.h

Mae'r hyfforddiant yn orfodol ar gyfer bawb sy'n gyfrifol am, neu'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus yn yr eglwys. Mae hi hefyd yn bwysig i sicrhau bod y bobl briodol yn mynychu hyfforddiant er mwyn cwrdd â gofynion Comisiwn Elusennau a rai polisïau yswiriant.

Gofynnaf felly a fyddech mor garedig a rhoi gwybod i'r bobl berthnasol o fewn eich eglwys am yr hyfforddiant ac yn eu hannog i fynychu. Mi all hyn gynnwys ymddiriedolwyr, athrawon ysgol Sul, gweithwyr ieuenctid ac ymwelwyr bugeiliol.

Amcanion y sesiwn yw:

1. I ddod yn gyfarwydd gyda chynnwys a phwrpas y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus
2. I ddeall y pwysigrwydd o greu awyrgylch ddiogel trwy recriwtio mwy diogel ac arferion gwaith da.
3. Gwybod sut i ymateb i bryderon ynglŷn â phlant ac oedolion bregus

Amgaeaf boster i'ch cynorthwyo i hysbysu'r sesiwn. Cysylltwch â ni ar y rhif ffôn neu e-bost isod os dymunwch unrhyw wybodaeth bellach.

Gyda diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Julie Edwards
Swyddog Hyfforddiant a Diogelu

Panel Diogelwch, 1 Vale Parc Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych LL16 5TA
☎+ 01745 817584 post@paneldiogelwch.org.uk www.paneldiogelwch.org.uk